**Cytundeb Dwyochrog rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau'r WTO yn y Bil Amaethyddiaeth**

## Gwneud rheoliadau Rhan 7 y tro cyntaf

- Bydd Defra yn ei gwneud yn glir ar lawr Tŷ'r Cyffredin yn yr araith adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin y bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn gwneud rheoliadau o dan y pŵer hwn.

- Bydd swyddogion Defra yn rhannu â'u cydswyddogion yn y gweinyddiaethau datganoledig eu cynigion ar gyfer rheoliadau o dan bwerau'r WTO yn y Bil Amaethyddiaeth, gan gynnwys:
    - y fethodoleg a'r rhesymeg dros benderfynu ar neu newid terfynau'r Blwch Ambr a'r terfynau eu hunain;
    - y math o wybodaeth y dylid ei darparu, a pha mor aml, at bwrpas categoreiddio cynlluniau ac ar gyfer hysbysu'r defnydd a wneir o flwch erthyglau cymdeithasu'r WTO; a
    - y broses ar gyfer categoreiddio cynlluniau a rôl y memorandwm cyd-ddealltwriaeth (gweler isod).

- Caiff rheoliadau drafft eu cyflwyno i bedwar gweinidog amaeth y DU at ddiben cael eu cytundeb. Yna cyfnewidir llythyrau. Byddai hynny'n rhoi'r cyfle i weinyddiaeth ddatganoledig esbonio'i safbwynt ac i Ysgrifennydd Gwladol Defra esbonio'r rhesymau dros ffurf derfynol y rheoliadau a sut y mae Llywodraeth y DU wedi ceisio dod i gytundeb.

- Dylai'r broses ar gyfer rhannu rheoliadau ac ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig ddilyn yr egwyddorion a ddisgrifir yn y Cytundeb Rhynglywodraethol. Yn unol â'r rheini, mae'r gweinyddiaethau wedi ymrwymo i geisio mynd yn eu blaenau trwy gytundeb. Ond os nad yw hynny'n bosibl, delir â'r mater yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Llywodraethau ac ag unrhyw gytundebau sy'n bod rhwng Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig i ddatrys anghydfodau. Os ceir anghydfod, ar ôl dilyn pob un o'r trywyddau hyn i unioni'r mater, dylai'r llythyrau a gyfnewidiwyd gael eu rhoi i'r ddau Dŷ cyn cynnal y bleidlais gadarnhaol ar y rheoliadau a wneir o dan ran 7.

### Gweithrediad rheoliadau Rhan 7

Mae'r broses a ganlyn wedi'i dylunio i ddelio â phenderfyniadau sy'n ymwneud â chategorïau'r WTO. Mae'n fodel y gall gweinyddiaethau eraill ystyried ei ddefnyddio os oes angen, i ddelio â phenderfyniadau a wnaed o dan reoliadau Rhan 7.

- Mae'r weinyddiaeth sy'n bwriadu cyflwyno neu newid y ffordd y mae'r cyllid yn cefnogi cynhyrchwyr amaethyddol yn cynnig categori WTO sy'n gyson â'r rheoliad a'r broses fanwl a ddisgrifir mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ei gwaith. Dylai swyddogion drafod y categorïau a gynigir, a'u cyflwyno i bedwar gweinidog amaeth y DU, i ddechrau trwy lythyr ac os oes angen trwy drafod, gyda'r nod o sicrhau cytundeb. Caiff y categorïau a gynigir eu hadolygu, os oes angen, cyn rhoi'r cynlluniau ar waith. Gan gymryd y ceir cytundeb, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysu'r WTO o'r categorïau.

- Os na fydd modd dod i gonsensws trwy'r drefn datrys anghydfodau bresennol, caiff y mater ei roi ger bron "panel o arbenigwyr" i gael eu cyngor annibynnol. Pwrpas y panel yw paratoi barn annibynnol arbenigol ar y mater sy'n cael ei ystyried. Nid oes gofyn i hwn fod yn bwyllgor sefydlog - gellir ei sefydlu os a phan fydd anghydfod yn codi. Y Grŵp Rhyngweinidogol (EFRA) ddylai gytuno ar aelodau'r panel. Os na fydd yn bosib cytuno ar aelodau'r panel, dylai pob parti sy'n rhan o'r anghydfod (yr Ysgrifennydd Gwladol a'r weinyddiaeth ddatganoledig dan sylw) benodi arbenigwr yr un a dylai'r ddau a enwebir gytuno rhyngddynt ar drydydd aelod cyn ystyried y pwnc. Ar ôl i'r panel roi ei gyngor annibynnol, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud penderfyniad.

- Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi ystyriaeth i'r cyngor hwn a dylai rannu'r cyngor, y penderfyniad a'r rheswm dros y penderfyniad â'r gweinyddiaethau datganoledig. Bydd y cytundeb ar y trefniadau hyn yn adlewyrchu natur dechnegol benodol rheolau'r WTO ac ni ddylai ragfarnu'r gwaith ehangach ar ddatrys anghydfodau sy'n cael ei wneud fel rhan o'r Adolygiad o'r Berthynas rhwng Llywodraethau a gomisiynwyd gan y Cyd-bwyllgor y Gweinidogion.

- Rhaid rhoi ystyriaeth i osgoi sbarduno aelodau eraill y WTO i herio penderfyniad hysbysu'r DU, felly bydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ceisio cytuno ar y cydbwysedd cywir rhwng tryloywder penderfyniad terfynol yr Ysgrifennydd Gwladol a'i atebolrwydd amdano.